I'r tiwtor

Cynnwys

Mae **Taith Iaith 4** a **Taith Iaith 5** yn addas ar gyfer disgyblion sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 ac mae'n cynnwys:

- **2 lyfr cwrs** sy'n cyflwyno iaith ac sy'n cynnig cyfleoedd real ar gyfer ei defnyddio a'i datblygu.
- **2 lyfr gweithgareddau** sy'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau y gellir **dewis a dethol** ohonynt. Ni fwriedir i bob disgybl wneud pob gweithgaredd sy yn y llyfr, ond dylai tiwtoriaid ddewis y rhai mwyaf priodol i'w dosbarthiadau a'u gofynion.
- **Gwefan,** sy'n cynnwys taflenni gwaith, gweithgareddau atodol a sgriptiau'r sgyrsiau sy ar y cryno ddisg.
- **Cryno ddisg** sy'n cynnwys darnau gwrando ar gyfer pob uned.

SYLWER:

Mae'r **llyfrau glas** a'r gweithgareddau perthynol ar y we wedi eu seilio ar y cyd-destunau sy'n cael eu hastudio ar gyfer y **Cwrs Byr**, sef:

- Y Filltir Sgwâr
- Hamdden
- Gwaith
- Llên a Llun

Mae'r **llyfrau oren** yn datblygu ymhellach y cyd-destunau sy'n cael eu hastudio yn y llyfrau glas ond maent hefyd yn cynnwys y ddau gyd-destun ychwanegol ar gyfer y **Cwrs Llawn**, sef:

- Cymru.com
- Delwedd

Mae'r unedau yn y llyfrau yn ymdrin â phynciau sydd o ddiddordeb i bobl ifanc ac maent yn gwau ynghyd y themâu a nodir yn y fanyleb ar gyfer TGAU. Nid oes, felly, uned gyfan ar 'Y Filltir Sgwâr', 'Cymru.com' ac ati, ond mae'r themâu a nodir yn y fanyleb yn cael eu cyflwyno a'u hadolygu dro ar ôl tro mewn gwahanol unedau.

Mae'r gwaith, felly, yn addas ar gyfer y TGAU presennol ond yn ogystal, gobeithir y bydd yn addas o safbwynt unrhyw newidiadau a all ddigwydd i'r cymhwyster yn y dyfodol.